# Rhagolygon economaidd ac ariannol

## Diweddarwyd: Mawrth 2013

## Diben

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r rhagolygon diweddar ar gyfer economi'r DU[1] a sut y mae'r rhain wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cymharu rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) â rhagolygon annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Caiff ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn gyda rhagolygon yr SCC (yn yr hydref a'r gwanwyn).

## Cefndir y rhagolygon


Sefydlwyd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) yn 2010 i roi dadansoddiad annibynnol o gyllid cyhoeddus y DU. Mae'r Swyddfa'n cynhyrchu adroddiad ddwywaith y flwyddyn sy'n rhoi'r rhagolygon ar gyfer yr economi a chyllid cyhoeddus. Cyhoeddwyd y rhagolwg diweddaraf[2] ar y cyd â Chyllideb y DU ar gyfer 2013,[3] ar 20 Mawrth 2012.

Bydd Trysorlys ei Mawrhydi yn cyhoeddi adroddiad[4] bob mis yn crynhoi'r rhagolygon ar gyfer economi'r DU a gyhoeddir gan sefydliadau annibynnol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos rhagolygon tymor canolig cyfartalog y sefydliadau annibynnol ar 20 Chwefror 2013. Dyma'r rhagolygon tymor canolig cyfartalog diweddaraf sydd ar gael, ond dylid nodi iddynt gael eu cyhoeddi cyn Cyllideb 2013 a rhagolygon diwygiedig mis Mawrth 2013. 5

## Twf CMC

Mae ffigur 1 yn dangos y rhagolygon ar gyfer twf cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC)(rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon cyfartalog annibynnol) rhwng 2013 a 2017.

**Ffigur 1: Twf CMC (newid canrannol o'r flwyddyn flaenorol)**




Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Rhagfyr 2012, wedi gostwng 0.6 pwynt canran ar gyfer 2013, a 0.2 pwynt canran ar gyfer 2014. Nid oes newid yn y rhagolygon ar gyfer 2015 a 2016.

Nid yw'r rhagolygon annibynnol cynddrwg â rhai'r SCC, gyda'r rhagolygon ar gyfer twf CMC wedi gostwng dim ond 0.2 pwynt canran ar gyfer 2013, yn aros yn sefydlog ar gyfer 2014, ac yn gostwng 0.1 pwynt canran yn 2015 a 2016 o'u cymharu â rhagolygon annibynnol mis Chwefror 2012.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Mawrth

[1] Nid oes rhagolygon cymharol ar gael ar gyfer Cymru.
[2] Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol, **Economic and Fiscal Outlook, 20 March 2013** [Saesneg yn unig] [fel ar 20 Mawrth 2013]
[3] Trysorlys ei Mawrhydi, **Cyllideb 2013**, 20 Mawrth 2013 [Saesneg yn unig] [fel ar 20 Mawrth 2013]
[4] Trysorlys ei Mawrhydi, **Forecasts for the UK economy: A comparison of independent forecasts, 20 February 2013** [Saesneg yn unig] [fel ar 20 Mawrth 2013]
[5] Mae rhagolygon annibynnol diwygiedig ar gael ar gyfer mis Mawrth 2013, ond did ydynt yn cynnwys rhagolygon tymor canolig a dim ond hyd at 2014 y maent ar gael. Gellir gweld y rhain fan hyn: **Forecasts for the UK economy: A comparison of independent forecasts, 20 March 2013** [Saesneg yn unig] [fel ar 20 Mawrth 2013]


2012: mae rhagolygon twf CMC wedi gostwng 1.4 pwynt canran ar gyfer 2013, 0.9 pwynt canran ar gyfer 2014, 0.7 pwynt canran ar gyfer 2015 a 0.3 pwynt canran ar gyfer 2016. Unwaith eto, nid yw'r rhagolygon annibynnol cynddrwg â rhai'r SCC o'u cymharu â rhagolygon mis Chwefror 2012.

Mae rhagolygon twf CMC yr SCC yn llawer is o'u cymharu â rhai mis Tachwedd 2010, gyda gostyngiad o 2.3 ac 1.0 pwynt canran ar gyfer 2013 a 2014 yn y drefn honno.

## Chwyddiant - Mynegai Prisiau Defnyddwyr

Mae Ffigur 2 yn dangos y rhagolygon ar gyfer chwyddiant fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2013 a 2017.

**Ffigur 2: Twf CMC (newid canrannol o'r flwyddyn flaenorol)**




Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Mae hyn yn dangos, ers mis Rhagfyr 2012, fod rhagolygon yr SCC wedi cynyddu 0.3 pwynt canran ar gyfer 2013, 0.2 pwynt canran ar gyfer 2014, a 0.1 pwynt canran ar gyfer 2015. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer 2016 wedi newid.

Mae'r rhagolygon annibynnol yn nodi cynnydd tebyg i ragolygon yr SCC, gyda chwyddiant, ar gyfartaledd, 0.1 pwynt canran yn uwch dros y cyfnod dan sylw o'i gymharu â'r rhagolygon annibynnol ar gyfer mis Tachwedd 2012.


O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Mawrth 2012, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant CPI wedi cynyddu 0.9 pwynt canran ar gyfer 2013, 0.5 pwynt canran ar gyfer 2014 a 0.1 pwynt canran ar gyfer 2015. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer 2016 wedi newid.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant CPI yn uwch yn 2013, 2014 a 2015 (0.8, 0.4, a 0.1 pwynt canran yn y drefn honno).

## Diweithdra

Mae Ffigur 3 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'i mesurir gan y nifer sy'n hawlio budd-daliadau [6] (rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2013 a 2017.

**Ffigur 3: Nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra (miliynau)**




Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Rhagfyr 2012, wedi gostwng ar gyfer bob blwyddyn, sef gostyngiad o 80,000 ar gyfer 2013, 60,000 ar gyfer 2014, 40,000 ar gyfer 2015 a 50,000 ar gyfer 2016 a 2017.

Mae'r rhagolygon annibynnol wedi gostwng 50,000 ar gyfer 2013, 80,000 ar gyfer 2014, 140,000 ar gyfer 2015 a 190,000 ar gyfer 2016, o'u cymharu â rhagolygon annibynnol mis Tachwedd 2012.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Mawrth 2011, mae'r rhagolygon ar gyfer y nifer sy'n hawlio budd-daliadau wedi gostwng 60,000 ar gyfer 2013. Mae'r rhagolygon wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn arall, sef cynnydd o 110,000 ar gyfer 2014, 240,000 ar


[6] Ers mis Hydref 1996, dyma'r nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

gyfer 2015 a 290,000 ar gyfer 2016.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer y nifer sy'n hawlio budd-daliadau wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn, sef cynnydd o 280,000 ar gyfer 2013, 420,000 ar gyfer 2014, a 490,000 ar gyfer 2015.

Mae Ffigur 4 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'u mesurir gan gyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol [7] (rhagolygon yr SCC yn unig; nid yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2013 a 2017.

**Ffigur 4: Cyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (canran o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar)**




Ffynhonnell: Adroddiadau rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Mae hyn yn dangos, ers mis Rhagfyr 2012, fod rhagolygon yr SCC wedi gostwng ar gyfer bob blwyddyn: 0.3 pwynt canran yn is ar gyfer 2013, 0.2 pwynt canran yn is ar gyfer 2014, 0.1 pwynt canran yn is ar gyfer 2015 a 0.2 pwynt canran yn is ar gyfer 2016 a 2017.


O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Mawrth 2012, mae rhagolygon wedi gostwng 0.7 pwynt canran ar gyfer 2013, wedi aros yn sefydlog ar gyfer 2014, tra'u bod wedi cynyddu 0.7 pwynt canran a 1.1 pwynt canran ar gyfer 2015 a 2016, yn y drefn honno.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer pob blwyddyn yn uwch, ac yn dangos cynnydd o 0.7 pwynt canran ar gyfer 2013, 1.3 pwynt canran ar gyfer 2014 ac 1.8 pwynt canran ar gyfer 2015.

## Lefelau benthyca a dyled y sector cyhoeddus

Mae Ffigur 5 yn dangos y rhagolygon ar gyfer lefelau benthyca net y sector cyhoeddus (PSNB)[8] (rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2012-13 a 2017-18.

**Ffigur 5: Lefelau benthyca net y sector cyhoeddus (£ biliwn)**




Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Rhagfyr 2012, wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn, sef cynnydd o £6 biliwn ar gyfer 2012-13, £9 biliwn ar gyfer 2013-14, £9 biliwn ar gyfer 2014-15, £14 biliwn ar gyfer 2015-16, £12 biliwn ar gyfer 2016-17 ac £11 biliwn ar gyfer 2017-18. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2017-18 bydd PSNB £61 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Rhagfyr 2012.

Mae'r rhagolygon annibynnol yn wahanol i ragolygon yr SCC ac yn dangos cynnydd o £5.1 biliwn ar gyfer 2012-13, gostyngiad o £4.7 biliwn ar gyfer 2013-14,

[7] **Graddfa diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol** yw'r ganran o bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith yn ôl mesur y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ddi-waith ond sy'n chwilio am swydd, neu'r rhai sy'n ddi-waith ond a fydd yn dechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf. Caiff ei fesur gan arolwg o'r llafurlu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n ddull mwy cynhwysfawr o fesur diweithdra na'r nifer sy'n hawlio budd-dai diweithdra gan ei fod yn cynnwys pawb sy'n ddi-waith, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n hawlio budd-daliadau.

[8] **Lefelau benthycau net y sector cyhoeddus (PSNB)** yw cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus (cyfredol a chyfalaf) llai'r holl incwm, ac mae'n ddull o fesur y sefyllfa gyllidol gyffredinol.


gostyngiad o £4.1 biliwn ar gyfer 2014-15, gostyngiad o £7.6 biliwn ar gyfer 2015-16, a chynnydd o £2.8 biliwn ar gyfer 2017-18.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Mawrth 2012 mae'r rhagolygon PSNB wedi gostwng £6 biliwn ar gyfer 2012-13 ac wedi cynyddu ym mhob blwyddyn arall, sef cynnydd o £22 biliwn ar gyfer 2014-15, £35 biliwn ar gyfer 2015-16, a £40 biliwn ar gyfer 2016-17. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2016-17 bydd PSNB £101 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2012.

O'i gymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r PSNB wedi gostwng £5 biliwn ar gyfer 2012-13, ond wedi cynyddu £48 biliwn ar gyfer 2013-14, £62 biliwn ar gyfer 2014-15 a £69 biliwn ar gyfer 2015-16. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2015-16 bydd PSNB £174 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2010.

Mae Ffigur 6 yn dangos y rhagolygon ar gyfer dyled net y sector cyhoeddus (PSND)[9] (rhagolygon yr SCC yn unig gan nad yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2012-13 a 2017-18.

**Ffigur 6: Dyled net y sector cyhoeddus (£ biliwn)**




Ffynhonnell: Adroddiadau rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Rhagfyr 2012, wedi cynyddu ym mhob blwyddyn, sef cynnydd o £3 biliwn ar gyfer 2012-13, £16 biliwn ar gyfer 2013-14, £36 biliwn ar gyfer 2014-15, £60 biliwn ar gyfer 2015-16, £82 biliwn ar gyfer 2016-17, a £103 biliwn ar gyfer 2017-18.

Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2017-18 bydd PSNB £300 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Rhagfyr 2012. Mae hyn yn dangos cymhareb o 84.8 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2017-18 (y rhagolwg ym mis Rhagfyr 2012 oedd 77.3 y cant).

O'i gymharu â rhagolygon y SCC ym mis Mawrth 2012, mae'r rhagolygon ar gyfer PSND hefyd wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn, sef cynnydd o £30 biliwn ar gyfer 2012-13, £14 biliwn ar gyfer 2013-14, £33 biliwn ar gyfer 2014-15, £65 biliwn ar gyfer 2015-16 a £101 biliwn ar gyfer 2016-17. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2016-17 bydd PSNB £243 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2012. Mae hyn yn dangos cymhareb o 85.6 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2016-17 (y rhagolwg ym mis Mawrth 2012 oedd 74.3 y cant).

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2011, mae'r rhagolygon ar gyfer PSND lawer uwch ac wedi cynyddu £32 biliwn ar gyfer 2012-13, £54 biliwn ar gyfer 2013-14, £114 biliwn ar gyfer 2014-15 a £182 biliwn ar gyfer 2015-16. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2015-16 bydd PSND £382 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2010. Mae hyn yn dangos cymhareb o 85.1 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2015-16 (y rhagolwg ym mis Tachwedd 2010 oedd 67.2 y cant).

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o fanylion am y ffigurau ac esboniad o'r newidiadau yn y rhagolygon i'w cael yn y ddogfen lawn y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol: ***Economic and Fiscal Outlook***, Mawrth 2013 [Saesneg yn unig].

Am ragor o wybodaeth am ragolygon economaidd a chyllidol, cysylltwch â Dr Eleanor Roy (Eleanor.Roy@wales.gov.uk), y Gwasanaeth Ymchwil.

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

[9] **Dyled net y sector cyhoeddus (PSND)** yw cyfanswm cronnus y gofyniad arian parod net yn y sector cyhoeddus, ac mae'n adlewyrchu baich dyled y sector cyhoeddus.